Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Tymor yr Hydref 2026 *Autumn Term 2026*
Dosbarth 7 - Blwyddyn 6 *Year 6*

Thema'r Tymor *This Term's Theme:* **Amser Maith yn ôl** *Once Upon a Time*

Y Pedwar Diben *The 4 Core Purposes*	
• **Dysgwyr uchelgeisiol a galluog** • **Cyfranwyr mentrus a chreadigol** • **Dinasyddion egwyddorol a gwybodus** • **Unigolion iach a hyderus**	• *Ambitious, capable learners* • *Enterprising, creative contributors* • *Ethical, informed citizens* • *Healthy, confident individuals*
Byddwn yn datblygu'r sgiliau hyn, lle'n briodol, ym mhob ardal o'n gwaith.	*Where applicable, these skills will be developed throughout all tasks / work.*
Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd *Cross-curricular Responsibilities*	
• **Llythrennedd** • **Rhifedd** • **Cymhwysedd Digidol**	• *Literacy* • *Numeracy* • *Digital Competency*
Bydd y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio ym mhob ardal o'n gwaith.	*These skills will be used throughout all aspects of our work.*

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu *Languages, Literacy and Communication*	
Ystod o weithgareddau llafaredd, darllen a gramadeg yn seiliedig ar ystod o lyfrau a barddoniaeth am yr Ail Ryfel Byd ac effaith rhyfel hyd at heddiw. **Ysgrifennu darnau wedi eu hysbrydoli gan destunau mewn ystod o *genres* megis stori hanesyddol, ymson efaciwi, llythyr, bywgraffiad a chreu fideo am Hedd Wyn, adroddiad papur newydd hanesyddol, drama fer a barddoniaeth.** **Parhau i ddatblygu hyder yn ystod gwersi BSL, Ffrangeg ac Eidaleg gan ddangsos dealltwriaeth gynyddol o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt.**	*A range of oracy, reading and grammar activities based on books and poetry about the Second World War and the effect of war today.* *Written work inspired by texts using a variety of genres such as historical fiction, writing a soliloquy of an evacuee, letter, biography and video about Hedd Wyn, newspaper report and poetry.* *Continue developing confidence during BSL, French and Italian lessons, showing an increased understanding of the commonalities and differences.*
Mathemateg a Rhifedd *Mathematics and Numeracy*	
Problemau bywyd go iawn adio, tynnu, lluosi a rhannu gyda degolion a rhifau cyfan. **Ystod o ymchwiliadau er mwyn gorfod cyfiawnhau canlyniadau.** **Cyfrifo amser o gwmpas y byd a nodi cyfeirnodau lledred a hydred, parthau amser.** **Cywerthedd ffracsiynau, degolion a chanrannau.** **Dehongli data Cyfrifiad dros y blynyddoedd/ data pleidleisio.** **Trosi unedau imperial i rai metrig.**	*Real life addition, subtraction, multiplication and division problems with decimals and whole numbers.* *Range of investigations-being able to justify results.* *Calculating time around the world and specifying latitude and longitude references, time zones.* *Equivalence of fractions, decimals and percentages.* *Compare prices and value for money.* *Interpreting Census and voting data over the years.* *Converting imperial/metric measurements*

Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Science and Technology

Dysgu am bethau sy'n gallu effeithio ar iechyd a'r system imiwnedd.	*Learning about factors that can affect health and the immune system.*
Ymchwiliadau iechyd a lles amrywiol.	*Various health and well-being investigations.*
Gwaith basdata Excel-defnyddio fformiwlâu.	*Excel database work – using formulas.*
Codio gan ddefnyddio rhaglenni amrywiol.	*Coding using various programs.*
Ymchwilio i ddogni a ryseitiau adeg y rhyfel gan goginio rysait syml.	*Researching rationing and wartime recipes, cooking a simple recipe.*
Dysgu am briodweddau deunyddiau a'r ffordd cawsant eu defnyddio yn ystod yr Ail Ryfel Byd, dylunio prototeip a chreu cysgod Anderson.	*Learning about the properties of materials and how they were used during the Second World War, designing a prototype and creating an Anderson shelter.*

Y Celfyddydau Mynegiannol
The Expressive Arts

Archwilio gwahanol fathau o bortreadau a'r ffordd mae teimladau yn cael eu cyfleu.	*Exploring different types of portraits and the way feelings are conveyed.*
Dysgu am Gwen John ac arsylwi ar y ffordd roedd yn cyfleu teimladau drwy ei phortreadau.	*Learning about Gwen John and observing the way she conveyed feelings through her portraits, compare with other artists' portraits.*
Creu portread o aelodau'r teulu, hunan bortread, tirlun gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau megis gwaith pensil, collage, paent.	*Create a portrait of a family member, a self-portrait and landscape using different media such as pencil work, collage, paint.*
Creu addurn Nadolig gyda gwaith clai/croes bwyth.	*Create a Christmas decoration with clay/cross stitch.*
Datblygu eu sgiliau canu a pherfformio yn y sioe Nadolig gan helpu i drefnu.	*Develop performance skills in the Christmas play.*

Dyniaethau
Humanities

Trafod ystyr cyfansoddiad gwlad a chreu cyfansoddiad dosbarth ar y cyd.	*Learn about different countries' constitutions and create a class constitution together.*
Hanes deddfau a rheolau, a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud.	*History of rules and laws and how decisions are made.*
Dysgu am y gwahaniaeth rhwng sut mae gwledydd gwahanol yn cael eu llywodraethu a phwysigrwydd democratiaeth.	*Learn how different countries are governed and the importance of democracy.*
Dysgu am y rhyfeloedd byd a'u heffaith ar Gymru.	*Learn about the World Wars and their effect on people in Wales.*
Dathlu 50 mlynedd ers agor yr ysgol a dysgu am y 70au pan agorwyd yr ysgol.	*Celebrate the 50th birthday of YGGG Llantrisant, learning about the 70s when the school was opened.*
Sgiliau mapio wrth ddysgu am y llefydd oedd yn rhan o/ gafodd eu heffeithio gan y rhyfeloedd byd.	*Consolidating mapping skills whilst learning about the countries involved in/affected by the World Wars.*
Sesiynau athroniaeth i blant er mwyn trafod ystod o gwestiynau mawr CGM.	*Philosophy for Children sessions to discuss a range of RVE 'big questions'.*

Iechyd a Lles
Health and Wellbeing

Nofio (ar ddydd Llun).	*Swimming (Monday).*
Codi arian i elusen drwy'r Siop Ail Law a gweithgareddau eraill.	*Raise money for a charity of their choice through the second hand shop and other activities.*
Gosod nodau iechyd a lles mesuradwy i'w hunain gan adolygu yn dymhorol.	*Set measurable health and wellbeing goals for themselves and review them consistently.*
Dysgu am asesu risgiau a gwneud penderfyniadau gwybodus.	*Learn about assessing risks and making informed decisions.*
Trafod nodweddion perthnasau iach a sut i adeiladu perthnasau iach.	*Discuss the characteristics of healthy friendships/relationships and how to build healthy relationships.*
Gwersi i ddatblygu hunan-hyder a gwydnwch.	*Lessons to develop self-esteem and resilience.*
Dysgu sut gall bobl deimlo yn eu bod yn cael eu heithrio a sut gallwn annog bod yn gynhwysol.	*Learn about reasons why people feel marginalised and how we can encourage inclusivity.*

Croeso i Ddosbarth 7 *Welcome to Class 7*

7d5@hwbcymru .net

Sut y gallwch helpu *How you can help*	
Gall rhieni/gofalwyr gefnogi dysgu eu plentyn drwy ddarllen gyda nhw'n rheolaidd, annog arferion gwaith cartref da a siarad am yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn yr ysgol bob dydd. Gall ymarfer sgiliau allweddol fel darllen, sillafu a ffeithiau rhif wneud gwahaniaeth mawr, tra bod canmol ymdrech a chynnydd yn helpu i feithrin hyder ac agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu.	*Parents/carers can support their child's learning by reading with them regularly, encouraging good homework habits and talking about what they have learned at school each day. Practising key skills such as reading, spelling and number facts at home can make a big difference, while celebrating effort and progress helps to build confidence and a positive attitude towards learning.*

Cysylltu â ni *Contacting us*		Addysg Gorfforol *Physical Education*	
Croeso i chi gysylltu â'r dosbarth trwy ebost gydag unrhyw gwestiynau neu i rannu gwybodaeth bwysig â ni. Nid ydym yn darllen ebyst yn ystod y dydd gan ein bod yn brysur yn addysgu, felly os bydd neges bwysig ffoniwch 01443 237837	*You are welcome to email us in class if you have any questions or need to share information with us. We don't read emails during the day as we are busy teaching, so if you have an important message, please phone 01443 237837*	**DYDD LLUN** **Gall y plant wisgo dillad Addysg Gorfforol i'r ysgol ar y diwrnod hwn a chofio dod â'u dillad nofio ar gyfer y wers nofio.**	*MONDAY* *Pupils may wear their PE kit to school on this day and remember to bring their swimming gear for the swimming lesson.*

Gwaith Cartref *Homework*		Darllen *Reading*	
Caiff gwaith cartref ei osod bob dydd Gwener ar Google Classroom. Caiff ei egluro ar ddiwedd y diwrnod ddydd Gwener, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn y dydd Gwener canlynol. Bydd y gwaith cartref a osodir yn rhywbeth y dylai disgyblion allu ei gwblhau ar eu pennau eu hunain, gan ddarllen y cyfarwyddiadau eu hunain a defnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth ddysgwyd yn y dosbarth.	*Homework will be assigned each Friday on Google Classroom. It will be explained at the end of the day on Friday and is expected to be completed by the following Friday. The homework set will be something that pupils should be able to complete by themselves, reading the instructions independently and using the skills and knowledge taught in class.*	**Bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau, gan ddefnyddio llu o ddeunyddiau a rhaglenni sy'n hyrwyddo darllen er pleser ac yn helpu disgyblion i ymgysylltu ag amrywiaeth o destunau o ansawdd uchel. Trwy ddarllen fel dosbarth cyfan, sesiynau darllen dan arweiniad a chyfleoedd i ddarllen yn annibynnol yn ystod gweithgareddau cylchdro darllen y bore, anogir disgyblion i ragfynegi, casglu ystyr o destunau a chyfiawnhau eu barn gan ddefnyddio tystiolaeth.**	*Pupils will participate in a range of reading activities, using a variety of materials and programmes which promotes reading for pleasure and helps pupils engage with a variety of high-quality texts. Through whole-class reading, guided reading sessions and independent reading opportunities during the morning reading carousel activities, pupils will be encouraged to make predictions, infer meaning from texts and justify their opinions using evidence.*

Presenoldeb *Attendance*		Gwyliau *Holidays*	
Mae'n bwysig iawn fod pob plentyn yn mynychu'r ysgol bob dydd ac yn cyrraedd yn brydlon. Gofynnir i chi ffonio swyddfa'r ysgol cyn 09:00 bob dydd y bydd plentyn yn dost i'n hysbysu - gadewch neges fer ar y peiriant ateb.	*It is essential that all children attend school every day and arrive promptly. You are kindly asked to phone the school office before 09:00 each day of an absence to inform us - leave a short message on the answerphone.*	**Gofynnir yn garedig i rieni / gofalwyr lenwi'r ffurflen ar-lein berthnasol o leiaf 4 wythnos cyn y cyfnod o absenoldeb - ffurflen isod. Mae'r Awdurdod Lleol a'r ysgol yn cynghori yn gryf na ddylai disgyblion fynd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol.**	*We kindly ask that the relevant online form is completed by a parent / carer not less than four weeks prior to the period of absence - form below. The Local Authority and school strongly advise that pupils should not take holidays in term time.*
Salwch *Illness*		**Gwybodaeth bellach** *Further Information*	
Deallwn fod plant yn dost o bryd i'w gilydd. Cofiwch gysylltu os bydd eich plentyn yn absennol oherwydd salwch. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried holl blant eraill y dosbarth cyn anfon plentyn sydd ddim yn hwylus i'r ysgol. Mae modd gweinyddu meddyginiaeth yn ystod y dydd os yw'ch plentyn yn ddigon iach i ddod i'r ysgol ond bod angen moddion arno/arni - ffurflen isod.	*We totally understand that children are unwell from time to time. Remember to phone school if your child is absent due to illness. It's important that we consider all the other children in class before sending a child who is under the weather to school. It is possible to administer prescribed medication to children during the school day if they are well enough to attend school but need medicine - form below.*	**Diolch i chi am sicrhau bod popeth gan eich plentyn ar gyfer y diwrnod wrth gyrraedd yr ysgol bob bore: cot / bag / byrbryd / llyfr darllen / diod / brechdanau.**	*Thank you for ensuring that your child has everything they need for the day ahead when arriving at school each morning: coat / bag / snack / reading book / drink / sandwiches.*

Dolenni Defnyddiol *Useful Links*

- **Llythyron /** *Letters*
- **Llais Llantrisant - Cylchylythyr /** *Newsletter*
- **Ffurflenni Allweddol /** *Key Forms*
- **Iechyd a Moddion /** *Health and Medicines*
- **Cyn ac Ar ôl Ysgol /** *Before and After School*
- **Gwyliau ac Absenoldebau /** *Holidays and Absences*
- **Gwisg Ysgol /** *School Uniform*
- **Prosbectws yr Ysgol /** *School Prospectus*
- **Cwricwlwm /** *Curriculum*